

**ADOLYGIAD DYNLADDIAD DOMESTIG
CRYNODEB WEITHREDOL**

Sir Fynwy Ddiogelach -

**Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir
Fynwy**

Y Dioddefwr: "Belle" - Dyddiad y farwolaeth - Mehefin, 2015

Awdur yr Adroddiad: Christine Edmondson

Dyddiad cwblhau'r adroddiad: Hydref 2017

RHESTR CYNNWYS

Tudalen

Y BROSES ADOLYGU

3

CYFRANWYR I'R ADOLYGIAD

3

AELODAU'R PANEL ADOLYGU

5

AWDUR YR ADRODDIAD TROSOLWG

6

CYLCH GORCHWYL YR ADOLYGIAD

6

CRONOLEG GRYNO

7

ARGYMHELLION YN DEILLIO O'R ADOLYGIAD

9

Y BROSES ADOLYGU

Mae'r crynodeb hwn yn amlinellu'r broses a wnaed gan banel adolygu dynladdiad domestig Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy wrth adolygu dynladdiad Belle, a oedd yn preswyllo yn ei ardal. Defnyddiwyd y ffugenwau canlynol yn yr adolygiad hwn er mwyn i'r dioddefwr a'r cyflawnwr ddiogelu eu hunaniaeth nhw a rhai aelodau o'u teuluoedd:

Dioddefwr - Belle - 35 oed pan laddwyd hi

Cyflawnwr - Howard - 52 oed, gŵr Belle

Roedd Belle a Howard ill dau yn Brydeinwyr

Defnyddiwyd blaenlythrennau i ddiogelu enwau partïon perthnasol eraill fel y nodir isod:

- Mrs M D (mam Belle) a Mr B D (llysdad Belle)
- Mr D B (tad Belle) a Mrs K B (llysfam Belle)
- Mrs J S (modryb Belle) a Mr K S (ewythr Belle)
- Mrs M C (modryb Belle)
- Ms G H (merch Howard, llysfarch Belle)
- Ms D H (chwaer Howard) a Ms S (nith Howard)
- Ms A M (ail wraig Howard)
- Mrs A M - ffrind a chyflogwr Belle
- Ms H M - ffrind a chydweithiwr Belle
- Mr MB - partner Belle
- Dr R R - Meddyg Teulu - Meddygfa Vauxhall
- Ms C W - Cyfreithiwr Belle
- Mr P B - (B & Son Ltd, Trefnwyr Angladdau)
- Ditectif Cwnstabl C O - Swyddog Cyswllt Teuluoedd Heddlu Gwent
- Ditectif Prif Arolygydd N B - Uwch Swyddog Ymchwilio Heddlu Gwent

Cynhaliwyd cwest ar 11^{eg} Tachwedd 2015 a dyfarniad y crwner oedd bod Belle wedi cael ei lladd yn anghyfreithlon a bod Howard wedi cyflawni hunanladdiad.

Dechreuodd y broses gyda chyfarfod cychwynnol o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Fynwy ym mis Chwefror 2016 pan gytunwyd ar y penderfyniad i gynnal adolygiad dynladdiad domestig. Cysylltwyd â phob asiantaeth a allai fod wedi cael cysylltiad â Belle a/neu Howard cyn dyddiad y farwolaeth a gofynnwyd iddynt gadarnhau a oeddent yn ymwneud â'r ddau o gwbl. Cadarnhaodd pedair o'r pum asiantaeth y cysylltwyd â hwy mewn cysylltiad â Belle a/neu Howard a gofynnwyd iddynt gyflwyno'u ffeiliau.

CYFRANWYR I'R ADOLYGIAD

Asiantaethau:

Cyngor Sir Fynwy – aelodaeth y Panel, cymorth gweinyddol, gwybodaeth

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - aelodaeth y Panel, adolygiad rheolaeth fewnol, gwybodaeth

Heddlu Gwent - aelodaeth y Panel, adolygiad rheolaeth fewnol, gwybodaeth, adroddiadau, tystiolaeth o'r ymchwiliad

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol - aelodaeth y Panel, adolygiad rheolaeth fewnol, gwybodaeth

Cyfannol Women's Aid - aelodaeth y Panel, adroddiadau, gwybodaeth

Ysbytai Brenhinol Caerfaddon - gwybodaeth

Radio Swydd Gaerloyw – gwybodaeth, recordiad o raglen radio

Awduron yr Adolygiadau Rheolaeth Fewnol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Linda Brown, Pennaeth Diogelu

Nid oedd gan Linda unrhyw gyswllt gydag unrhyw un o'r cysylltiadau rhwng staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Belle a Howard. Fel y Nyrs Arweiniol ar gyfer Diogelu, nid oedd hi mewn rôl oruchwyliol ar gyfer unrhyw un o'r staff perthnasol.

Heddlu Gwent – Joanne Bull – Prif Arolygydd, Gweithrediadau

Nid oedd gan Joanne unrhyw gyswllt gydag unrhyw un o'r cysylltiadau rhwng staff Heddlu Gwent a Belle a Howard. Mae Joanne yn gweithio mewn rôl wahanol ac nid oedd mewn rôl oruchwyliol ar gyfer unrhyw un o'r swyddogion perthnasol.

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol - Debbie Atkins, Rheolwr Tîm

Nid oedd gan Debbie unrhyw gyswllt gydag unrhyw un o'r cysylltiadau rhwng staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Howard. Nid oedd ganddi rôl oruchwyliol ar gyfer unrhyw un o'r staff na'r timau perthnasol.

Unigolion

- Mrs M D (mam Belle) - gwybodaeth drwy gyfarfodydd, e-byst a galwadau ffôn
- Mr B D (llysdad Belle) - gwybodaeth drwy gyfarfodydd, e-byst a galwadau ffôn
- Mr D B (tad Belle) - gwybodaeth drwy gyfarfodydd a galwadau ffôn
- Mrs K B (llysfam Belle) - gwybodaeth drwy gyfarfodydd a galwadau ffôn
- Mrs J S (modryb Belle) - gwybodaeth drwy gyfarfodydd, e-byst a galwadau ffôn
- Mr K S (ewythr Belle) - gwybodaeth drwy gyfarfodydd, e-byst a galwadau ffôn
- Mrs M C (modryb Belle) - gwybodaeth drwy alwadau ffôn
- Ms G H (merch Howard, llysfarch Belle) - gwybodaeth drwy gyfarfod, e-byst, negeseuon testun a galwadau ffôn
- Ms D H (chwaer Howard) - gwybodaeth drwy gyfarfod, e-byst a galwadau ffôn
- Ms S (nith Howard) - gwybodaeth drwy gyfarfod
- Ms A M (ail wraig Howard) - gwybodaeth drwy alwadau ffôn
- Mrs A M - ffrind a chyflogwr Belle - gwybodaeth drwy gyfarfod, e-byst a galwadau ffôn

- Ms H M - ffrind a chydweithiwr Belle - gwybodaeth drwy gyfarfod
- Mr MB - partner Belle - gwybodaeth drwy alwadau ffôn
- Dr R R - Meddyg Teulu - Meddygfa Vauxhall - gwybodaeth drwy alwadau ffôn
- Ms C W - Cyfreithiwr Belle - gwybodaeth drwy alwadau ffôn
- Mr P B - (B & Son Ltd, Trefnwyr Angladdau)
- Ditectif Cwnstabl C O - Swyddog Cyswllt Teuluoedd Heddlu Gwent - gwybodaeth drwy gyfarfodydd, e-byst a galwadau ffôn
- Ditectif Prif Arolygydd N B - Uwch Swyddog Ymchwilio Heddlu Gwent - cyfarfod, e-byst a galwadau ffôn, darparu ffeiliau tystiolaeth.

AELODAU'R PANEL ADOLYGU

Christine Edmondson	Cadeirydd Annibynnol - Awdur yr Adroddiad	Annibynnol
Rebecca Haycock	Ymgynghorydd Rhanbarthol dros Drais yn erbyn Menywod, Trais Rhywiol a Cham-drin Domestig.	Gwent
Will McLean	Pennaeth Llywodraethu, Gwella ac Ymgysylltu	Cyngor Sir Fynwy
Jane Rodgers	Pennaeth Gwasanaethau Plant	Cyngor Sir Fynwy
Linda Brown	Swyddog Arweiniol ar gyfer Diogelu (tan 19.8.16)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Annette Morris	Swyddog Arweiniol ar gyfer Diogelu (o 19.8.16)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bronwen John	Pennaeth Partneriaethau a Rhwydweithiau	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Prif Arolygydd Joanne Bull	Prif Arolygydd, Gweithrediadau	Heddlu Gwent
Debbie Atkins	Rheolwr Tîm	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Helen Swain	Y Prif Weithredwr	Cyffannol Women's Aid

Cyfarfu'r panel am y tro cyntaf ar 15^{fed} Ebrill 2016 ac ar 4 achlysur dilynol. Nid oedd gan unrhyw un o aelodau'r Panel unrhyw gysylltiad proffesiynol â naill ai â Belle, Howard nac unrhyw aelod o'u teulu.

AWDUR YR ADRODDIAD TROSOLWG

Mae Christine Edmondson, y cadeirydd ac awdur adroddiad yr adolygiad hwn yn weithiwr portffolio llawrydd gyda gwybodaeth eang am ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus lleol. Mae llawer o'i gwaith fel person annibynnol – roedd hi am bedair blynedd yn gadeirydd annibynnol ar Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Fynwy, ac am wyth mlynedd roedd yn aelod annibynnol ac yn Gadeirydd Pwyllgor Cofrestru ac Ymddygiad Cyngor Gofal Cymru a hefyd yn aelod lleyg annibynnol o Bwyllgorau Ymddygiad Proffesiynol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg, ac ar hyn o bryd mae'n aelod lleyg annibynnol o Banelli Camymddwyn Heddlu Gwent. Mae hi wedi gweithio'n annibynnol mewn amrywiaeth o rolau am bedair blynedd ar ddeg ar ôl gyrfa fel uwch reolwyr yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol.

CYLCH GORCHWYL YR ADOLYGIAD

Diben y panel

- I sefydlu'r ffeithiau am y digwyddiadau yn arwain at, ac yn dilyn, marwolaethau Belle a Howard.
- I archwilio rolau'r sefydliadau a oedd yn rhan o'r achos, y graddau yr oedd Belle a Howard yn ymwneud â'r asiantaethau hynny, ac effeithiolrwydd a phriodoldeb ymatebion un asiantaeth ac ymatebion partneriaeth i'r achos.
- I sefydlu a oes gwersi i'w dysgu o'r achos hwn ynglŷn â'r ffordd yr oedd sefydliadau a phartneriaethau lleol yn gweithio'n unigol ac ar y cyd wrth gyflawni eu cyfrifoldebau i ddiogelu lles y rhai a fu farw.
- I nodi'n glir beth yw'r gwersi hynny, sut y byddant yn cael eu gweithredu, a beth y disgwylir i newid o ganlyniad i hyn oll.
- I nodi a oes angen, o ganlyniad, i newidiadau mewn polisi, gweithdrefnau neu arferion sefydliadol a/neu bartneriaeth yn Sir Fynwy er mwyn gwella ein gwaith i ddiogelu dioddefwyr cam-drin domestig yn well.

Cwmpas adolygiad y panel

- Llunio cronoleg o ddigwyddiadau a chamau gweithredu yn arwain at, ac mewn perthynas â marwolaethau Belle a Howard o'r cyfnod o 1^{af} Ebrill 2006 hyd at 19eg Mehefin 2015* (gyda gwybodaeth gynharach os oes angen ac ar gael) ac yn gofyn am wybodaeth oddi wrth:
 - Sefydliadau a oedd â chyswllt â hwy
 - Sefydliadau cymunedol lleol
 - Eu teulu, ffrindiau a chyflogwyr
- Adolygu rolau, cyfrifoldebau, polisiau ac arferion presennol mewn perthynas â dioddefwyr cam-drin domestig – i greu darlun o'r hyn a allai fod wedi digwydd arwain at ganlyniad gwahanol.
- Adolygu hyn yn erbyn yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd er mwyn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau ac arferion posibl eraill.

- Adolygu'r arferion gorau cenedlaethol o ran amddiffyn oedolion rhag cam-drin yn y cartref.
- Dod i gasgliadau ynghylch sut y gall sefydliadau a phartneriaethau wella'u gwaith yn y dyfodol i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried yn benodol:

- A yw teulu, ffrindiau a chyflogwyr yn barod i gymryd rhan yn yr adolygiad?
- Asesiad o'r graddau yr oedd teulu a chyfeillion yn ymwybodol o ymddygiad camdriniol neu a oedd yn peri pryder gan y cyflawnwr i'r dioddefwr (neu bersonau eraill).
- Asesiad o'r graddau yr oedd teulu a ffrindiau yn ymwybodol o unrhyw gam-drin neu ymddygiad sy'n peri pryder gan y dioddefwr i'r cyflawnwr (neu bersonau eraill).
- Adolygiad o unrhyw rwystrau a brofwyd gan y teulu o ran rhoi gwybod am gamdriniaeth neu bryderon, gan gynnwys a oeddent hwy (neu'r dioddefwr) yn gwybod sut i adrodd am gam-drin domestig pe dymument.
- Adolygiad o unrhyw agweddau o'r fath a oedd yn ymwneud ag ymddygiad neu hanes o gam-drin gan y cyflawnwr ac a oedd hyn yn hysbys i unrhyw asiantaeth.
- A fyddai wedi bod yn bosibl cynnal Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth.
- Gwerthusiad o unrhyw ofynion hyfforddi neu godi ymwybyddiaeth sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau mwy o wybodaeth a dealltwriaeth o brosesau a/neu wasanaethau cam-drin domestig yn Sir Fynwy.
- A oedd gan y cyflawnwr unrhyw hanes blaenorol o ymddygiad camdriniol tuag at y dioddefwr, neu unrhyw bartner blaenorol neu bresennol ac a oedd hyn yn hysbys i unrhyw asiantaethau.
- Adolygu'r cyfathrebu i'r cyhoedd a gwasanaethau anarbenigol am y gwasanaethau arbenigol sydd ar gael sy'n ymwneud â cham-drin neu drais domestig.
- A yw'r gwaith a wneir gan y gwasanaethau yn yr achos hwn yn gyson â'u safonau, protocolau, canllawiau, polisïau a gweithdrefnau proffesiynol.
- Unrhyw wybodaeth arall a ddaw'n berthnasol wrth gynnal yr adolygiad.

CRONOLEG GRYNO

Crynodeb o'r ffeithiau allweddol o gefndir a chronoleg gyfun y rhyngweithio rhwng asiantaethau a'r dioddefwr a'r cyflawnwr a'u teulu; beth a wnaed neu a gytunwyd. Dylai'r crynodeb roi digon o ffeithiau i roi cyd-destun ar gyfer y materion allweddol sy'n deillio o'r adolygiad. Gwybodaeth gefndirol sydd hefyd yn rhoi cyd-destun i stori'r dioddefwr a'r cyflawnwr.

2006 - dyddiad amhenodol - cyfarfu Belle a Howard a dechrau perthynas ysbeidiol.

13^{eg} Mai 2008 – Y cyswllt cyntaf â'r heddlu ar ôl i aelod o'r cyhoedd adrodd "dadl dreisgar" – gwrthododd y ddau i egluro ac aethpwyd â Belle i dŷ ei mam am y nos.

24^{ain} Ionawr 2009, Mynychodd Belle y Gwasanaeth Achosion Brys yng Nghaerfaddon gyda "phoen yn yr asennau chwith".

16^{eg} Chwefror, 2009, ffoniodd mam Belle yr Heddlu i ddweud bod Howard wedi bygwth cyflawni hunanladdiad – adroddodd hefyd am sawl bygythiad ac ymgais o'r gorffennol – gwrthodwyd yr honiadau gan Howard.

Mawrth 2009 - methodd Howard â mynychu apwyntiad iechyd meddwl - roedd hyn i ddigwydd yn rheolaidd er gwaethaf llawer o nodiadau atgoffa.

29^{ain} Ebrill 2009 - Yr Heddlu'n cael eu galw gan aelod o'r cyhoedd yn nodi gweiddi, sgrechian, llawer o sŵn, problem a oedd yn codi'n aml - disgrifiwyd hyn fel "mân-ddadl" gan Belle a Howard, oedd ill dau'n gwrthod cwblhau ffurflen cofnodi trais domestig (ffurflen DV1).

24^{ain} Gorffennaf 2009 - Mynychodd Belle y Gwasanaeth Achosion Brys yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd yn dweud ei bod wedi baglu a churo'i phen ar ôl noson o yfed.

14^{eg} Tachwedd 2010 – galwad 999 oddi wrth gymydog – dywedodd Belle wrth yr Heddlu fod Howard wedi ei dal i lawr a cheisio'i thagu – roedd yr heddlu o'r farn fod anafiadau Howard yn waeth na rhai Belle, felly ni chafodd ei gyhuddo. Gwrthodwyd rhagor o gymorth gan y ddau.

Diwedd 2010 / dechrau 2011 gwahanodd Belle a Howard.

26 Chwefror 2011 - Heddlu (o du allan i ardal Heddlu Gwent) yn bresennol ar ôl galwad 999 oddi wrth gymydog yn nodi bod Belle yn sgrechian wrth i Howard geisio gwthio'i ffordd drwy ffenestr. Gadawodd cyn i'r heddlu gyrraedd.

10^{fed} Ebrill 2011 - mynychodd yr Heddlu achos o ymladd rhwng Howard a phartner newydd Belle. Dim cyhuddiadau.

Yn hwyr yn 2011 - dyweddiodd Belle â'i phartner newydd

Yn gynnar yn 2012 - Belle a Howard yn ailgychwyn eu perthynas

1^{af} Mehefin 2012 - Belle a Howard yn priodi

31^{ain} Mawrth 2013 - Belle yn ffonio 999 i roi gwybod am "ddadl lafar" gyda Howard a dywedodd ei bod hi "eisiau iddo fod allan o'r tŷ". Cymerwyd Belle i dŷ ei mam am y nos.

13^{eg} Mai 2013 - Belle a Howard yn cael dadl dreisgar ym maes parcio'r gwesty lle'r oedd Belle yn gweithio. Bwriodd Howard Belle a gafodd ei arestio ac yn ddiweddarach cafodd ei gollfarnu o ymosodiad.

29^{ain} Mai 2013 – cychwynnodd Howard orchymyn cymunedol 12 mis

9^{fed} Awst – Cychwynnodd Howard ar gwrs "Perthnasoedd Parchus" fel rhan o'r gorchymyn uchod

6^{ed} Mawrth 2014 – Bu galwad 999 o dŷ'r cwpwl yn ystod dadl dreisgar. Gwrthododd Belle gwblhau ffurflen Cam-drin Domestig, Stelcian, Aflonyddu a Thrais ar sail Anrhydedd ac aeth i dŷ ei mam am y nos.

7^{fed} Mawrth 2014 - Trafodwyd yr achos mewn Cynhadledd Cam-drin Domestig galwad a graddiwyd fel yn achos canolig.

28^{ain} Mai 2014 - Cwblhaodd Howard ei orchymyn cymunedol

Ebrill 2015 – dechreuodd Belle berthynas â phartner newydd – roedd ffrindiau yn ei disgrifio fel yn hapus iawn o'r cyfnod hwn.

Yn gynnar ym Mehefin 2015 – ail wraig Howard, A, wedi clywed y gallai Belle fod yn bwriadu gadael Howard. Ymosodwyd arni gan Howard ar ôl iddi ei adael a chysylltodd â Belle i'w rhybuddio o'r perygl y gallai ei wynebu wrth adael.

18^{fed} Mehefin 2015 – Aeth Belle i ymweld â chyfreithiwr gyda'i mam i gael cyngor ynghylch gadael Howard. Fe wnaeth ei mam a'r chyfreithiwr ei hannog i adael ar unwaith.

18^{fed}/19^{eg} Mehefin 2015 - Ymosododd Howard ar Belle gyda chylllell cegin, gan achosi clwyfau angheuol ac yna drywanodd ei hun sawl gwaith a bu farw hefyd. Gwelwyd bod dillad Belle a meddiannau eraill wedi cael eu pacio mewn bagiau a chesys dillad yng nghegin eu tŷ.

ARGYMHELLION YN DEILLIO O'R ADOLYGIAD

D.S. Awgrymwyd yr argymhellion unigol gan yr asiantaethau a gymerodd ran yn yr adolygiad ond maent wedi cael eu trafod yn llawn a'u cefnogi gan y Panel Adolygiad Dynladdiad Domestig. Drafftiwyd argymhellion y Panel Adolygiad Dynladdiad Domestig gan y panel sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl asiantaethau sy'n cymryd rhan.

Argymhellion Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Argymhelliad Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 1

Yn unol â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn sicrhau y caiff hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ei roi ar waith ar draws eich sefydliad.

Argymhelliad Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 2

Bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn sicrhau bod hyfforddiant Gofyn a Gweithredu yn canolbwyntio i ddechrau ar dargedu gwasanaethau gofal sylfaenol, yn benodol Meddygon Teulu.

Argymhelliad Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 3

Bod cam-drin domestig wedi'i gynnwys yn y sesiynau Datblygiad Proffesiynol Parhaus cynlluniedig ar Ddiogelu ar gyfer Meddygon Teulu.

Argymhelliad Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 4

Dylid adolygu pecyn hyfforddi Rhwydwaith Ymchwil Risg Cymhwysol Cymru ei adolygu i gynnwys pwysigrwydd ei gwblhau cyn gynted â phosibl yn ystod y broses asesu ar gyfer pawb sy'n cysylltu â Thîm Iechyd Meddwl Cymunedol.

Argymhelliad Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 5

Anfonir rhybudd i Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol yn eu hatgoffa o bwysigrwydd cwblhau asesiad risg cytunedig yn yr asesiad cychwynnol ar gyfer pawb sy'n cysylltu â Thîm Iechyd Meddwl Cymunedol, a dylid cwblhau asesiad risg wedi'i ddogfennu ar gyfer pawb sy'n cysylltu â Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol.

Argymhelliad 6

Mae gan yr holl Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, yr Heddlu ac asiantaethau eraill brotocolau clir, darbodus i alluogi Adolygiadau Dynladdiad Domestig i ddechrau cyn gynted â phosibl ar ôl marwolaeth.

Argymhelliad 7

Dylid llunio nodyn briffio i godi ymwybyddiaeth o ymddygiad gorfodi a rheoli ac i'w gyfeirio at feddygon teulu Gwent.

Argymhelliad 8

Mae'r holl gyfreithwyr sy'n ymarfer yng Ngwent sy'n delio â materion priodasol a theuluol i gael eu cyfeirio at wybodaeth i dynnu sylw at y peryglon ac yn cael eu hyfforddi i ddeall y peryglon y gall menywod eu hwynebu wrth adael perthynas camdriniol.

Argymhelliad 9 (a)

Mae cyfweliadau cychwynnol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig a amheuir, p'un a yw trais neu ymddygiad gorfodi a rheoli, bob amser yn digwydd y tu allan i olwg a chlyw'r cyflawnwr a amheuir.

Argymhelliad 9 (b)

Mae ymweliadau ymyrraeth e.e. gan Swyddogion Cam-drin Domestig Heddlu Gwent neu gan swyddogion Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cael eu cynnal mewn lleoliad niwtral, ymhell oddi wrth y cyflawnwr tybiedig a/neu collfarnwyd. Mae ymweliadau o'r fath bob amser yn cael eu gwneud ar ôl i Orchmynion Cymunedol orffen ac yn dilyn digwyddiadau lle mae Heddlu wedi mynychu.

Argymhelliad 10

Bydd pob ysbyty, clinig, canolfan iechyd a meddygfa yng Ngwent yn derbyn deunydd gwybodaeth i'r cyhoedd sy'n cynnig gwasanaeth cyfeirio a gwybodaeth am gam-drin domestig gan gynnwys ymddygiad gorfodi a rheoli.

Argymhelliad 11

Pan fydd aelodau o'r teulu, ffrindiau neu bartïon eraill sydd â diddordeb yn ymddangos yn y safle o ddynladdiad, penodir Goruchwyliwr dyletswydd bob amser i'w cefnogi, i weithredu fel cyfrwng gwybodaeth ac i esbonio'r drefn ar gyfer trosedd. Maent hefyd yn sicrhau bod perthnasau agos yn cael eu hysbysu'n brydlon naill ai ganddynt eu hunain neu gan swyddogion eraill.